

## Atodiad 6

### Crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd a gwerthusiad o'r farn a fynegwyd

1. Mae'r farn a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad wedi eu nodi mewn print italaidd ac wedi eu grwpio yn unol â'r pwyntiau a godwyd lle bo hynny'n briodol.
2. Gwelir ymateb y Cyngor i bob pwynt isod, o dan y pennawd "Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd".

### Ymateb Aelod Cynulliad

3. Roedd ymateb gan Aelod Cynulliad Gorllewin Caerdydd, Mark Drakeford, yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb yn llawn yn Atodiad 5)

- *Balch iawn o weld y cynnig a'r ymgynghoriad ar gyfer ys ysgol gynradd newydd gyntaf ar gyfer datblygiad Plasdŵr yng ngogledd-orllewin Caerdydd;*
- *Ni ddylai'r gyfradd codi tai fod yn gynt na'r gyfradd datblygu seilwaith. Mae'n hanfodol fod darpariaeth gynradd ychwanegol ar gael cyn gynted ag y bo modd ac ni fyddem am weld unrhyw oedi ar ddyddiad agor ym mis medi 2021;*
- *Bydd lleoliad arfaethedig yr ysgol yn ei gwneud yn gyfleus i deuluoedd mewn sawl rhan o'r ardal gyfagos, gan gynnwys trigolion ym Mharc Plymouth a Chae St Fagans;*
- *Dylid darparu mynediad amgen i'r safle gyda blaenoriaethu ar ddewisiadau teithio llesol er mwyn osgoi ychwanegu'n ddiangen at Heol Llantrisant a Heol Isaf sydd eisoes yn brysur dros ben. Rhaid bod y dewisiadau teithio amgen ar gael ddim hwyrach na dyddiad agor yr ysgol.*
- *Dylai pob rhiant yng Ngorllewin Caerdydd fod a dewis pa un ai i addysgu eu plant trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd y cynnig hwn yn cynnig y dewis yma ar ffurf system ddwy ffrwd;*
- *Mae'r model arfaethedig yn cyd-daro'n dda â chefnogaeth barhaus Cyngor Caerdydd i addysg Gymraeg a tharged Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050;*
- *Ceir hefyd heriau ynghlwm â sefydlu system ddwy ffrwd, sy'n golygu y bydd trefniadau llywodraethiant a monitro cynnydd yr ysgol yn hynod o bwysig.*

- *Wrth fy modd gweld y gyntaf o bum ysgol newydd arfaethedig ar gyfer safle Plasdŵr yn mynd rhagddi ac yn edrych ymlaen at weld y momentwm yn cael ei gynnal dros y blynyddoedd i ddod, fel y gall y gymuned gyfan dderbyn darpariaeth addysg gywir.*

## **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

4. Mae'r Cyngor yn croesawu'r gefnogaeth i'r cynnig.
5. Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu ysgolion lleol i blant lleol pan fo hynny'n bosibl. Mae ysgol newydd yn cael ei darparu gan ddatblygwr y safle fel rhan o'r cytundeb cynllunio gyda'r cyngor i ateb y galw ar y datblygiad newydd a'r tai sy'n cael eu cynllunio i'r dyfodol. Y dyddiad agor arfaethedig yw mis Medi 2021 ac ni ragwelir y bydd unrhyw oedi yn yr amserlen yma (yn amodol ar broses/cymeradwyaeth statudol).
6. Mae Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor (2006-2026) yn cynnwys targed o wneud 50% o'r holl deithiau trwy ddulliau trafndiaeth gynaliadwy. Gall lleihau cyfran y teithiau ysgol a wneir mewn ceir a gwneud y gorau o gyfleoedd i deithio i'r ysgol trwy ddulliau cynaliadwy gyfrannu'n sylweddol at gyrraedd y targed hwn a gostwng pwysau ar y rhwydwaith trafndiaeth yn y cyfnodau prysuraf.
7. Bydd cynyddu teithio i'r ysgol trwy ddulliau llesol yn effeithio'n gadarnhaol ar iechyd a llesiant plant a bydd yn cefnogi gweithredu camau allweddol a chanlyniadau Targed 5 Strategaeth Dinas sy'n Dda i Blant y Cyngor (2018), sy'n cyfeirio at sicrhau amgylcheddau diogel y tu allan ar gyfer chwarae ffurfiol ac anffurfiol, cerdded, beicio a sgwtio a theithio llesol i'r ysgol.
8. Mae Cynllun Corfforaethol presennol y Cyngor yn cynnwys ymrwymiad i bob ysgol yng Nghaerdydd ddatblygu Cynllun Teithio Llesol. Bydd cynllun felly'n nodi camau gan yr ysgol i gynorthwyo ac annog teithio llesol i'r ysgol ac unrhyw welliannau i seilwaith ar ac oddi ar y safle sy'n angenrheidiol i hwyluso teithiau llesol.
9. Mae'r uwch gynllun ar gyfer datblygiad Plasdŵr wedi ei ddylunio i hwyluso teithiau o fewn a'r tu hwnt i'r datblygiad tai trwy gerdded a beicio. Mae hyn yn cynnwys darparu rhwydwaith o lwybrau beics, yn cynnwys llwybrau ar wahân i lonydd y traffig.
10. Caiff Cynllun Teithio Llesol ei ddatblygu ar y cyd â materion cynllunio, dylunio a chodi'r ysgol newydd ac mae'n debygol o fod yn amod yn y cydsyniad cynllunio.
11. Bydd swyddogion tîm trafndiaeth y Cyngor yn gweithio'n agos â chydweithwyr yn y timau cynllunio ac addysg i ddatblygu Cynllun Teithio Llesol a sicrhau y caiff ei deilwra'n llawn ar gyfer lleoliad yr ysgol a'i hanghenion yn y dyfodol.

12. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth Cymraeg 2050 yn 2017 a oedd yn cyflwyno gweledigaeth gerbron o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
13. Nod y strategaeth yw i 40 y cant o blant yng Nghymru, ym mhob grŵp blwyddyn, dderbyn addysg Gymraeg, gyda phob un yn gallu adrodd eu bod yn rhugl yn y Gymraeg. Rhan allweddol o'r strategaeth hon yw y bydd hanner y 60 y cant o blant sy'n weddill a gaiff eu haddysgu yn y Saesneg hefyd yn adrodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg (mae manylion y strategaeth i'w gweld yn Atodiad 9).
14. Fel y nodir yn Caerdydd 2030 mae'r Cyngor yn ymrwymedig i hyrwyddo'r Gymraeg, treftadaeth a diwylliant Cymru ac i hwyluso defnydd ehangach o'r Gymraeg.
15. Ni ellir cyflawni targedau Cymraeg 2050 yng Nghaerdydd drwy sefydlu ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd yn unig. Mae'n rhaid i'r cyngor hefyd gyflawni newid sylweddol yn y modd y galluogir plant mewn ysgolion Saesneg i fod yn fwy rhugl eu Cymraeg ac â'r hyder i ddefnyddio'r iaith.
16. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynnig llefydd ysgol yn Gymraeg ac yn Saesneg. Byddai'r model arfaethedig yn galluogi plant o fewn ac yn agos i'r datblygiad newydd ym Mhlasdŵr i allu cyrchu ysgol gynradd leol ac i dderbyn addysg Gymraeg neu Saesneg, pa un bynnag yw eu dewis.
17. Os aiff y cynnig yn ei flaen, caiff corff llywodraethu dros dro ei sefydlu ar gyfer unrhyw ysgol newydd ar ôl cyhoeddi hysbysiad statudol. Byddai ystod o randdeiliaid yn cael eu cynrychioli ar y corff llywodraethu dros dro, yn cynnwys rhieni, athrawon (o ysgolion lleol), staff nad ydynt yn addysgu (o ysgolion lleol), cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol a phartneriaid cymunedol. Y Cyngor fyddai'n penodi'r staff o'r Awdurdod Lleol, staff nad ydynt yn staff addysgu a rhiant-lywodraethwyr a'r corff llywodraethu dros dro fyddai'n penodi'r athrawon-lywodraethwyr a'r llywodraethwyr cymunedol.
18. Byddai'r corff llywodraethu'n gyfrifol am benodi Pennaeth, cytuno ar strwythur staffio a phenderfynu ar agweddau eraill megis enw'r ysgol, ei gwisg ysgol a'i logo.
19. Yn ogystal â hyn byddai gofyn i'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethu ystyried polisïau a gweithdrefnau AD y byddai gofyn eu mabwysiadu mewn perthynas â recriwtio ac unwaith y bydd yr ysgol wedi'i sefydlu, mewn perthynas â rheoli staff. Byddai'r Cyngor yn annog mabwysiadu polisïau Cyngor Caerdydd gan fod y rhain wedi bod yn destun ymgynghoriad gyda chynrychiolwyr yr undebau llafur.
20. Mae gan Gyngor Caerdydd gyfrifoldeb i sicrhau fod nifer ddigonol a digon o amrywiaeth o ran llefydd ysgol gynradd ac uwchradd ar gael i ddiwallu anghenion poblogaeth y sir.

21. Fel y nodir yn CCA (Canllawiau Cynllunio Atodol) Oblygiadau Cynllunio Cyngor Caerdydd, bydd y Cyngor yn ceisio darparu llefydd ysgol newydd mewn amgylchiadau lle na all yr angen a gaiff ei gynhyrchu gan ddatblygiad arfaethedig yn rhesymol gael ei ddiwallu gan ysgolion sy'n bod eisoes, oherwydd y byddai'r galw am fwy o lefydd yn fwy na chapasiti yr ysgolion hynny sydd yn y dalgylchoedd lle cynigir y datblygiad newydd.
22. Bydd llefydd ysgol newydd yn cael eu darparu un ai trwy ehangu'r ysgolion presennol (pan fo safle yn ddigon mawr i ganiatáu i hynny ddigwydd), neu drwy godi ysgolion newydd.
23. Gellir gofyn am gyfraniadau ar ffurf arian, tir neu seilwaith adeiledig a bydd ynghlwm â nifer y disgyblion y disgwylir eu gweld yn dod yn sgil y datblygiad newydd.
24. Bydd datblygiad parhaus Plasdŵr yn arwain at sefydlu tair ysgol gynradd arall ac un ysgol uwchradd gyda'r cynigion hyn yn cael eu dwyn ger bron ar yr adeg briodol.

### **Estyn**

25. Roedd ymateb gan Estyn yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 5)
  - *Mae'r cynnig yn unol ag amcan Llywodraeth Cymru o gyflawni'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr), drwy gynyddu'r defnydd ar y Gymraeg o fewn addysg yng Nghaerdydd;*
  - *Mae'r cynnig yn rhesymol wrth fynd i'r afael â'r angen i gynnig mwy o lefydd Cymraeg a Saesneg drwy godi ysgol newydd ar gyfer datblygiad newydd Plasdŵr;*
  - *Mae'r Cyngor wedi ystyried ystod o ddewisiadau yn briodol ac wedi dewis y cynnig uchod.*
  - *Mae Estyn o'r farn fod y cynnig hwn o leiaf yn debygol o gynnal y safonau addysg presennol.*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

26. Mae'r Cyngor yn cydnabod casgliadau Estyn ar ragoriaethau cyffredinol y cynigion.

### **Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd**

27. Swyddogaeth y Fforwm Addysg Gymraeg yw cyfrannu at a gweithredu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, i fwydo'n weithredol i'r broses o gynllunio llefydd addysg Cymraeg, i gyfrannu at ddatblygiad a hyrwyddo addysg Gymraeg, ac i gyfrannu at yr uchelgais i addysg Gymraeg gael ei integreiddio yn llawn i Strategaeth Caerdydd Ddwylieithog (2017-2022).

28. Mae'r Fforwm Addysg Gymraeg yn cynnwys cynrychiolwyr blynyddoedd cynnar, Penaethiaid ysgolion cynradd ac uwchradd Cymraeg, cynrychiolwyr addysg bellach ac uwch ac aelodau sy'n cynrychioli Llywodraeth Cymru, Consortiwm Canolbarth y De, Rhieni dros Addysg Gymraeg a Menter Caerdydd.
29. Roedd ymateb gan y Fforwm Addysg Gymraeg yn cynnwys y pwyntiau canlynol (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 5).
30. Ystyriodd y Fforwm y cynnig yng nghyd-destun gwybodaeth a ddarparwyd gan Meirion Prys Jones ynghylch adolygiad Llywodraeth Cymru ar Ddiffinio Ysgolion yn unol â'r ddogfen wybodaeth ar Ddarpariaeth Gymraeg.
31. Mae'r Fforwm yn cefnogi'r cynnig i sefydlu ysgol gynradd ddwy ffrwd dau ddosbarth mynediad i wasanaethu camau cynnar datblygiad Plasdŵr. Mae'r cynnig yn sicrhau darpariaeth addysg Gymraeg yn lleol ac yn cynnig dull amgen o ddatblygu'r Gymraeg ymhellach.
32. Bydd llwyddiant yr ysgol yn dibynnu ar arweiniad cryf a datblygu ethos Cymreig ar draws y ddwy ffrwd. Bydd hefyd yn angenrheidiol sicrhau bod rhieni'n glir ynghylch yr hyn a olygir wrth Saesneg yn bennaf gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg o ran rhuglder yn y Gymraeg a'r angen i drochi cyn trosglwyddo i ysgol uwchradd Gymraeg i'r rhai sy'n dewis yr opsiwn hwn.

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

33. Mae'r Cyngor yn croesawu cefnogaeth y Fforwm Addysg Gymraeg i'r cynnig.
34. Cydnabyddir yr angen am arweinyddiaeth gref a datblygu ethos Cymreig ar draws y ddwy ffrwd. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r corff llywodraethu i sicrhau bod trefniadau arweinyddiaeth sy'n cefnogi datblygiad addysg ddwyieithog ac ethos Cymraeg yn cael eu rhoi ar waith.
35. Bydd gwybodaeth ynghylch rhuglder iaith yn cael ei darparu i rieni fel rhan o'r broses dderbyn.
36. Bydd darpariaeth drochi yn yr iaith Gymraeg ar gael i'r rhai sy'n dymuno trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Gymraeg.

### **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol**

37. Ymatebodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i'r ymgynghoriad gan atodi rhai Fframweithiau Cenedlaethau'r Dyfodol i gefnogi'r cynnig: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 5).
  - *Mae'r fframweithiau'n sefydlu sbardunau i arwain cyrff cyhoeddus wrth lunio polisiau a datblygu prosiectau, ond hefyd i graffu ar benderfyniadau neu bolisiau o'r fath;*

- *Mae'n bwysig bod amcanion llesiant (cyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus), yr asesiadau a'r cynlluniau llesiant, y nodau statudol a'r egwyddor datblygu cynaliadwy (gan gynnwys y 5 ffordd o weithio) yn cael eu hystyried drwy gydol y broses*
- *Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Cymru wrthi'n datblygu fframwaith newydd ar gyfer adeiladau cyhoeddus mewn cydweithrediad ag Ysgolion yr 21ain Ganrif, i sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei chymhwyso'n briodol a bod adeiladau cyhoeddus yn addas i'r diben.*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

38. Mae'r Cyngor yn croesawu'r fframweithiau a ddarperir gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a bydd yn ystyried yr asesiadau llesiant drwy gydol y prosiect os bydd y cynigion yn symud yn eu blaen.

### **Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth**

39. Roedd ymateb gan Gadeirydd y Llywodraethwyr ar ran Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 5)
- *Mae llywodraethwyr yn croesawu bwriad y Cyngor i ddarparu mwy o addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal;*
  - *Byddai'r llywodraethwyr yn gwerthfawrogi cael rhagor o wybodaeth am yr effaith bosibl y gallai'r ysgol newydd ei chael ar nifer y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gwaelod y Garth.*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

40. Mae'r Cyngor yn croesawu'r gefnogaeth a leisiwyd i'r cynigion.
41. Mae nifer o ddatblygiadau tai newydd wedi eu cynnig yng ngogledd-orllewin Caerdydd yn y blynyddoedd diweddar a fydd yn cynyddu nifer y plant yn yr ardal sydd yn chwilio am lefydd ysgol ac a fydd yn effeithio ar argaeledd llefydd ysgol.
42. Byddai'r nifer llefydd yn y ddwy ffrwd fynediad arfaethedig yn ddigon i ddiwallu anghenion y datblygiad. Byddai'r ysgol hefyd yn darparu digon o lefydd dros ben i ateb y galw am lefydd ysgol o'r 290 o anheddau sydd wedi eu cynllunio ar y safle i'r de o Heol Pentre-baen (cam 2), a rhan o'r galw a ragamcennir o'r safle mwy yng ngogledd-orllewin Caerdydd o hyd at 5,000 o anheddau mewn camau diweddarach.
43. Fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori, disgwylir mai ychydig fyddai effaith bosibl yr ysgol newydd ar ysgolion lleol eraill cyfagos, am y byddai'r ysgol ond yn gweithredu un dosbarth meithrin, un dosbarth Derbyn ac un dosbarth Blwyddyn 1 a 2 cymysg ym mhob ffrwd ar adeg ei sefydlu.

44. Ni chredir y byddai agor pob blwyddyn ysgol yn yr ysgol arfaethedig newydd gyda nifer derbyn uwch yn ddatrysiad cynaliadwy oherwydd y gallai hyn effeithio'n negyddol ar ysgolion eraill yn yr ardal leol. Gallai hyn annog plant o ardaloedd eraill i gymryd lleoedd yn yr ysgol.
45. Ym mis Tachwedd 2018, roedd 25 disgybl o oed cynradd (Meithrin i Blwyddyn 6) a oedd yn byw ar gam cyntaf y datblygiad ym Mhlasdŵr. Mae'r disgyblion hyn yn mynd i gyfanswm o wyth ysgol ledled y ddinas. Ar hyn o bryd, mwyafswm nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgol benodol yw tri. Cofrestrodd y mwyafrif o'r ysgolion hyn dri disgybl neu lai.

### **Cylch Meithrin Creigiau**

46. Roedd ymateb gan Gylch Meithrin Creigiau yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 5)
  - *Ar ôl ystyried yr effaith bosibl ar ddarpariaeth gofal plant cyn ysgol yn yr ardal leol i Greigiau, hoffai Cylch Meithrin Creigiau ofyn sut y gallem i gyd fod yn y sefyllfa orau i fynd ati i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl o ran gofal a dysgu i gleientiaid newydd ac yn y dyfodol;*
  - *Bydd angen ehangu'r ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ac fel y Cylch Meithrin lleol profiadol a sefydledig, byddai Cylch Meithrin Creigiau yn awyddus i weithio gyda'r Cyngor i archwilio sut y gallent chwarae rôl yn gofalu a darparu'n ddigonol ar gyfer y gymuned hon sy'n ehangu a dod â'r ddarpariaeth o wasanaethau cyn-ysgol Cymraeg a dwyieithog gorau i'r safle newydd;*
  - *Mae cyfleusterau presennol y Cylch yn cyfyngu gweithio i 18 y sesiwn. Mae trafodaethau blaenorol gyda'r Cyngor a'r Mudiad Meithrin wedi cynnwys cwestiynau ynghylch ehangu'r safle presennol neu symud i un newydd ond nid ydynt wedi ystyried y cyfle ym Mhlasdŵr.*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

47. Un o nodau allweddol Cymraeg 2050 yw ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad i addysg Gymraeg.
48. Mae'r Cyngor yn cydnabod y byddai darparu Cylch Meithrin yn bartner i ysgol gynradd Gymraeg yn darparu dilyniant naturiol ar gyfer oedran addysg statudol ac yn croesawu mynegiant o ddiddordeb Cylch Meithrin Creigiau.
49. Bydd hyn hefyd yn annog datblygu sgiliau a gwaith partneriaeth agosach yn y blynyddoedd cynnar er mwyn sicrhau pontio llwyddiannus. Bydd y Cyngor a'r Mudiad Meithrin yn cydweithio i gofnodi'r gofynion gweithredol a dichonoldeb y trefniadau hyn.

## Cymdeithas yr Iaith

50. Roedd ymateb gan Gymdeithas yr Iaith yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 5)

- *Dylai'r ysgol newydd ym Mhlas Plasdŵr fod yn ysgol Gymraeg ddynodedig â dwy ffrwd Gymraeg, nid ysgol ddwyieithog;*
- *Croesawn y cynnig i sefydlu darpariaeth feithrin ar y safle ynghyd â'r ysgol, ond credwn y dylai hwn fod yn feithrinfa cyfrwng Gymraeg yn unig;*
- *Croesawn y cynnig i ddarparu gwasanaethau a gweithgareddau ar y safle, megis clybiau brecwast a chlybiau gwyliau, a chredwn mai gwasanaethau cyfrwng Gymraeg y dylai'r rhain fod;*
- *Dylai'r holl ysgolion newydd a fydd yn cael eu hagor fel rhan o ddatblygiad Plasdŵr fod yn ysgolion cyfrwng Gymraeg yn unig, er mwyn sicrhau bod pob person ifanc yn y gymuned yn gallu tyfu i fyny yn siarad Gymraeg;*
- *Er mwyn i Gaerdydd wneud y cyfraniad angenrheidiol tuag at y nod cenedlaethol o filiwn o siaradwyr Gymraeg, rhaid i'r ddinas wneud cynnydd dramatig a chyflym yng nghanran y plant sydd yn derbyn addysg Gymraeg yn y ddinas, felly ysgol Gymraeg yw'r hyn sydd ei hangen ym Mhlasdŵr;*
- *Mae agor ysgol newydd sbon ar gyfer y datblygiad tai hwn yn cynnig cyfle euraidd i gynyddu darpariaeth addysg Gymraeg yn gyflym yn yr ardal a dechrau normaleiddio addysg Gymraeg yn y ddinas. Drwy beidio â defnyddio'r arian sydd ar gael o'r datblygiad i agor ysgol cyfrwng Gymraeg ddynodedig, byddai'r Cyngor yn atal twf y Gymraeg yn yr ardal a dymuniadau'r rhan fwyaf o bobl yr ardal i adfer yr iaith Gymraeg ac i weld ein pobl ifanc yn rhugl ynddi;*
- *Ymrwymodd arweinydd y Cyngor i sicrhau bod ysgolion Gymraeg yn rhan ganolog o ddatblygiad Plasdŵr ac nid yw'n glir pam y penderfynodd Cabinet y Cyngor ymgynghori ar y cynnig i sefydlu ysgol ddwyieithog, ac i dorri'r addewid cyhoeddus hwn a wnaed gan yr arweinydd;*
- *Nid yw'r ddadl y byddai ehangu addysg Gymraeg yn rhy gyflym yn dadsefydlogi rhai o'r ysgolion cynradd Gymraeg sydd yn lleol i'r ysgol newydd yn dal dŵr. Mae'r boblogaeth yn mynd i dyfu'n sylweddol, a thueddiadau'r rhan fwyaf o bobl sy'n symud i fyw yn yr ardal fydd anfon eu plant i'r ysgol agosaf, beth bynnag fo'r cyfrwng. Dyma gyfle euraidd felly i wneud addysg Gymraeg yn norm yn y gymuned newydd hon drwy agor ysgol Gymraeg ddynodedig fel yr ysgol gyntaf, a'r ysgolion sydd i ddilyn hefyd;*



- *Dim ond drwy sefydlu ysgol Gymraeg ddynodedig y bydd y Cyngor yn sicrhau bod pob disgybl sy'n gadael yr ysgol yn siarad Cymraeg yn rhugl. Nid yw ysgolion dwyieithog yn sicrhau bod plant yn rhugl yn yr un ffordd. Gyda'r cynnig hwn, byddai'r Cyngor ar yr un pryd yn gwadu rhuglder yn y Gymraeg i ddisgyblion yn y ffrwd Saesneg, yn ogystal â pheryglu'r amgylchedd ieithyddol a'r defnydd o'r Gymraeg yn y ffrwd Gymraeg;*
- *Mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, mae cangen Caerdydd wedi cyflwyno deiseb i'r Cyngor gyda llofnodion 876 o bobl sy'n cefnogi'r alwad i agor ysgol Gymraeg ddwy ffrwd ddynodedig, yn hytrach nag ysgol ddwyieithog. Nid yw cynnig y Cyngor yn adlewyrchu'r gefnogaeth gref ac eang sydd ymhlith pobl Caerdydd i weld y Gymraeg yn ffynnu, ac i bob plentyn fod yn rhugl yn y Gymraeg wrth adael yr ysgol;*
- *Er mwyn cyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae'n hanfodol bod cynghorau sir yn cynyddu eu darpariaeth addysg Gymraeg nawr, ac fel dinas fwyaf Cymru, mae gan Gaerdydd rôl allweddol i'w chwarae os ydym am gyrraedd y targed;*
- *Mae'n rhaid i Gaerdydd sicrhau cynnydd dramatig a chyflym yn nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion Cymraeg, er mwyn cyfrannu at greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050;*
- *Yn 2014, dim ond 15.1% o blant saith oed yng Nghaerdydd oedd yn derbyn addysg Gymraeg. Mae'n amlwg felly bod angen agor nifer o ysgolion Cymraeg newydd, yn ogystal â chynyddu'r Gymraeg yn ysgolion presennol y ddinas, sy'n hanfodol er mwyn i Gaerdydd allu cyrraedd ei thargedau i gyfrannu at y nod cenedlaethol;*
- *Byddai agor ysgol benodedig Gymraeg fel yr ysgol gyntaf yn y datblygiad enfawr hwn yn hwb aruthrol i'r iaith yn yr ardal a Chaerdydd yn ei chyfanrwydd – gan osod cynsail i agor ysgolion Cymraeg dynodedig mewn datblygiadau newydd eraill a normaleiddio addysg Gymraeg ym mhob cymuned – ac nid yn unig yn y brifddinas ei hun, ond fel esiampl i'w dilyn gan siroedd eraill yng Nghymru sy'n profi twf poblogaeth a datblygiadau tai newydd tebyg. Dyma gyfle i Gaerdydd arwain y ffordd;*
- *Yn ein barn ni, mae achosion fel y rhain yn dangos yr angen am Ddeddf Addysg i Bawb yng Nghymru, a fyddai'n sicrhau mai addysg Gymraeg yw'r norm yn ein system addysg ledled y wlad drwy ddisodli'r system bresennol o Gynlluniau Strategol Addysg Gymraeg â thargedau statudol lleol a chenedlaethol na ellid eu gwrthdroi. Nid yw'n iawn ein bod yn parhau â'r system bresennol sy'n amddifadu'r rhan fwyaf o bobl ifanc o'u hawl i siarad Cymraeg oherwydd penderfyniadau mympwyol cynghorau sir.*

## **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

51. Mae Cymraeg 2050 yn nodi tair thema strategol gyd-ddibynnol:

- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
- Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

52. Mae dau brif ddull o sicrhau miliwn o siaradwyr:

- Trosglwyddo'r Gymraeg o un genhedlaeth i'r nesaf o fewn y teulu
- Datblygu a chynnal sgiliau drwy addysg a hyfforddiant, o'r blynyddoedd cynnar i ddarpariaeth Gymraeg i oedolion.

53. Mae'r strategaeth yn nodi er mai addysg drochi Cymraeg yw'r prif ddull o sicrhau y gall plant ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg, ac ar gyfer creu siaradwyr newydd, dylai pob dysgwr gael y cyfle i fod yn ddwyieithog.

54. Fel y nodir yn Cymraeg 2050, mae datblygu sgiliau Cymraeg yn y sector Saesneg yn gyfraniad pwysig i'w wneud o ran y nod o ddatblygu siaradwyr Cymraeg. I gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg rhaid trawsnewid y modd y caiff y Gymraeg ei dysgu i ddysgwyr ym mhob ysgol arall. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu un continwmm ar gyfer addysgu'r Gymraeg fel iaith, gyda phwyslais ar ddysgu'r Gymraeg yn bennaf fel ffordd o gyfathrebu, yn enwedig cyfathrebu ar lafar.

55. Bydd yn ofynnol i bob ysgol yng Nghymru gyflwyno'r continwmm iaith i bob dysgwr dros amser, a gwreiddio caffaeliad sgiliau iaith Gymraeg ar draws y cwricwlwm. Mae Cwricwlwm Cymru ar ei newydd wedd yn gosod y disgwyliadau ar gyfer ysgolion a dysgwyr. Bydd un cwricwlwm ar gyfer Cymru a fydd yn berthnasol i ysgolion Cymraeg, ysgolion Saesneg ac ysgolion dwyieithog. Bydd y disgwyliadau yng Nghymru ar gyfer y rheiny sy'n dysgu Cymraeg mewn ysgolion Saesneg yn cynyddu'n raddol wrth i'r garfan gyntaf ddysgu trwy'r cwricwlwm newydd er mwyn gwireddu'r uchelgais cenedlaethol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r llwybr iaith Gymraeg newydd yn disgwyl, er y bydd dysgwyr yn gwneud cynnydd ar gyflymder gwahanol mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, y bydd pob plentyn yn gallu defnyddio'r Gymraeg.

56. Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i hyrwyddo manteision addysg Gymraeg i holl gymunedau Caerdydd, gan wella safonau yn y Gymraeg mewn ysgolion Cymraeg a rhai Saesneg, gan ddatblygu cyfleoedd i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau Saesneg i gysylltu'n gadarnhaol â'r Gymraeg a gwella cyfraddau dilyniant rhwng y blynyddoedd cynnar ac addysg ôl-16 (Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog).

57. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, gwelwyd ehangu a buddsoddi mewn darpariaeth gynradd Gymraeg, gan gynnwys ehangu a throsglwyddo Ysgol

Glan Morfa i adeilad newydd, sefydlu a darparu adeiladau newydd ar gyfer Ysgol Hamadryad a darparu adeiladau newydd ar gyfer Ysgol Glan Ceubal. Mae hyn wedi arwain at dwf yn nifer y lleoedd sydd ar gael.

58. Er gwaethaf hyn, mae'r nifer sy'n manteisio ar leoedd cyfrwng Cymraeg wedi aros yn gyson dros y cyfnod hwn gyda mwy o leoedd ar gael na'r galw presennol:

<b>CYBLD Amcanestyniadau Blwyddyn</b>	<b>Nifer Disgyblion Derbyn Cymraeg</b>	<b>Cyfanswm Nifer Derbyn y Garfan</b>	<b>Canran Llenwi Llefydd Cymraeg</b>
2015	708	4304	16.4%
2016	690	4371	15.8%
2017	744	4367	17.0%
2018	709	4128	17.2%
2019	702	4157	16.9%
2020	701	4091	17.1%
2021	707	4126	17.1%
2022	640	3738	17.1%
2023	634	3698	17.1%

CYBLD 2019 o niferoedd derbyn carfan blwyddyn gyfan yn mynychu ysgolion Caerdydd

59. Ni ellir cyflawni targedau Cymraeg 2015 yng Nghaerdydd drwy sefydlu ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd yn unig. Rhaid i'r Cyngor hefyd gyflawni newid sylweddol o ran sut fydd plant mewn addysg Saesneg hefyd yn adrodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg.
60. Gellir gweld un o'r prif enghreifftiau o fodel dwy ffrwd yn Ngwlad y Basg. Mae y system yno yn caniatáu i blant dderbyn addysg trwy gyfrwng y Sbaeneg (Model A), model dwyieithog ar gyfer siaradwyr Sbaeneg sydd am fod yn ddwyieithog mewn Sbaeneg a Basgeg (Model B) a thrydydd dewis drwy gyfrwng y Fasgeg (Model D).
61. Mae model B yn golygu bod y ddwy iaith yn cael eu defnyddio am hyd at 50% o amser, ond mae hyn yn amrywio o ysgol i ysgol. Sefydlwyd y system yn 1983 ac mae wedi arwain at tua 90% o blant yn y rhanbarth yn cael eu haddysgu drwy fodolau B a D gan gynyddu lefel dwyieithrwydd.
62. Byddai'r ysgol ddwy ffrwd arfaethedig yn galluogi partneriaeth weithio agos rhwng y ffrydiau a thrwy rannu safle ac adnoddau, yn hwyluso trochiad ieithyddol llawn i blant o fewn y ffrwd Gymraeg a hefyd yn galluogi plant o fewn y ffrwd Saesneg yn bennaf i adeiladu caffaeliad iaith mwy cadarn yn y Gymraeg.
63. Byddai sefydlu ysgol Gymraeg newydd ddwy ffrwd yn unig yn cynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg sy'n gwasanaethu'r ardal ehangach yn sylweddol, ond mae risg sylweddol y gallai ysgol Gymraeg yn unig, ddwy ffrwd, ddenu gormod o ddisgyblion o ysgolion a dalgylchoedd Cymraeg eraill gan beri tan-danysgrifio i'r ysgolion hynny, gan eu gwneud yn llai diogel yn ariannol. Gallai hyn wedyn, amharu ar gynnydd yn y niferoedd

sy'n mynd i lefydd mewn addysg Gymraeg yn yr ardal ehangach am gyfnod estynedig.

64. Yr ysgolion Cymraeg sydd agosaf at yr ysgol newydd arfaethedig yw Ysgol Gymraeg Coed y Gof ac Ysgol Pencae. Mae Ysgol Pencae wedi bod yn boblogaidd ers blynyddoedd lawer. Mae nifer y disgyblion sydd ar gofrestr oedran Derbyn yn ysgol Gymraeg Coed y Gof wedi lleihau dros y tair blynedd diwethaf. Mae perygl y gallai lleoedd Cymraeg ychwanegol yn agos at Ysgol Coed y Gof leihau'r nifer sy'n mynychu'r ysgol honno ymhellach.
65. Mae'r model a gynigir yn gyson â'r themâu a nodir yn Cymraeg 2050, a fydd yn cefnogi datblygiad y Cwricwlwm i Gymru, yn cyfrannu tuag at ddyhead o gael 1,000,000 o siaradwyr Cymraeg, yn ateb y galw a ragwelir am leoedd o gamau presennol y datblygiad a chyfrannu tuag at ateb y galw o gamau'r datblygiad ym Mhlasdŵr yn y dyfodol.
66. Bydd y model hefyd yn caniatáu i'r rheini sydd am addysgu eu plentyn mewn ysgol cyfrwng Saesneg i gael mynediad at ddarpariaeth yn lleol a lleihau nifer y teuluoedd sy'n cymudo i'r ysgol drwy ddulliau teithio nad ydynt yn llesol, megis y car.
67. Mae'r ddarpariaeth lleoedd meithrin yn y Gymraeg a'r Saesneg yn gyson â'r model iaith deuol a gynigir. Gall plant yng Nghaerdydd fynd i le meithrin rhan amser mewn ysgol o ddechrau'r tymor sy'n dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Mae addysg feithrin yn anstatudol ac nid yw'n eithrio rhieni rhag gwneud cais am le yn y naill ffrwd iaith neu'r llall wrth drosglwyddo i addysg statudol.
68. Bydd y galw am leoedd meithrin yn y ddwy ffrwd yn cael ei adolygu'n gyson ac os ceir galw sy'n uwch na'r cyflenwad ar gyfer lleoedd addysg feithrin yn y naill ffrwd neu'r llall, rhoddir ystyriaeth i'r ffordd orau o ateb y galw hwn.
69. Mae cefnogaeth i ddarparu gwasanaethau ychwanegol gan gynnwys brechwast a chlybiau ar ôl ysgol ac adeg gwyliau. Bydd darparu unrhyw wasanaethau yn cael ei ddatblygu ar y cyd â'r ysgol a rhoddir ystyriaeth i'r cyfrwng iaith fel rhan o hyn.
70. Mater i Lywodraeth Cymru ei ystyried yw'r awgrym y dylid disodli'r system bresennol o Gynlluniau Strategol Addysg Gymraeg â Deddf Addysg i Bawb yng Nghymru.
71. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y Rheoliadau Cynlluniau Strategol Addysg Gymraeg (Cymru) 2019 a'r Canllawiau drafft rhwng 30 Mai a 13 Medi 2019.
72. Yr ysgol newydd arfaethedig yw'r gyntaf o bump o ysgolion (4 cynradd ac 1 ysgol uwchradd) fydd yn ffurfio rhan o'r datblygiad ehangach ym Mhlasdŵr. Caiff cyfrwng iaith yr ysgolion hyn eu hystyried a chaiff cynigion eu cyflwyno wrth i'r datblygiad fynd rhagddo.

73. Diben ymgynghori oedd i gael barn ar y Rheoliadau Cynlluniau Strategol Addysg Gymraeg (Cymru) 2019 a'r Canllawiau drafft. Mae'r rheoliadau hyn yn nodi dyletswyddau statudol yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio Cynllun Strategol Addysg Gymraeg. Y bwriad yw i'r Rheoliadau a'r Canllawiau hyn ddarparu fframwaith ar gyfer cynllunio darpariaeth addysg Gymraeg sy'n gyson â'r twf mewn disgwyliadau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

### **Mudiad Meithrin**

74. Roedd ymateb gan Mudiad Meithrin yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 5)

- *Croesawn ddymuniad y Cyngor i ehangu addysg Gymraeg yn yr ardal hon. Yr ydym yn gwbl gefnogol i'r ehangu hwn. Cytunwn y bydd sefydlu ysgol newydd a fydd yn derbyn 60 o blant y flwyddyn o'r dosbarth derbyn ymlaen yn sicrhau darpariaeth ar gyfer y tai newydd sy'n digwydd yng ngogledd-orllewin Caerdydd, ac o ganlyniad y nifer fwy o blant y bydd angen lleoedd ysgol arnynt yn yr ardal.*
- *Rydym yn pryderu y bydd datblygu ysgol ddwy ffrwd yn tanseilio strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru sydd wedi darparu gweledigaeth glir o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.*
- *Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Caerdydd (CSGA/WESP) 2017-2021 yn dangos yn glir bod angen mwy o gapasiti yn y sector Gymraeg er mwyn cyrraedd y targedau (% a niferoedd) ar gyfer y nifer o blant 7 oed sy'n derbyn addysg Gymraeg. Byddai sefydlu'r ysgol ym Mhlasdŵr fel ysgol cyfrwng Cymraeg ddynodedig yn ffordd o gyfrannu tuag at leihau'r bwlch rhwng y niferoedd a ragamcenir a'r niferoedd targed a nodir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) y Cyngor.*
- *Mae gwarged o 31 o leoedd cynradd yn y cyflenwad presennol yn y cyfrwng Saesneg ar gyfer oedran Derbyn yn yr ardal, a diffyg o 10 lle ar gyfartaledd yn y cyflenwad presennol o leoedd cyfrwng Cymraeg.*
- *Targed cenedlaethol Llywodraeth Cymru yw y dylai 40% o blant yng Nghymru, ym mhob grŵp blwyddyn, gael addysg Gymraeg, gyda phob disgybl yn gallu dweud eu bod yn rhugl. Mae angen cyflenwad digonol o leoedd ysgol Cymraeg, er mwyn annog rhieni i wneud y dewis hwnnw ac i greu twf ar gyfer addysg Gymraeg ar draws Cymru;*
- *Trochi iaith mewn ysgolion Cymraeg yw'r model gorau o sicrhau bod disgyblion yn caffael y Gymraeg a'r Saesneg. Mae ymchwil ledled y byd yn cydnabod, drwy drochi yn yr ail iaith fod y plentyn yn dod yn rhugl (yn y cyd-destun hwn, yn rhugl yn y Gymraeg);*

- *Byddai rhuglder a'r gallu i addysgu yn y Gymraeg yn hanfodol i bob aelod o staff – y pennaeth, yr athrawon, cynorthwyr ystafell ddosbarth a goruchwylwyr amser cinio. Dylid hefyd sicrhau bod y Gymraeg nid yn unig yn gyfyngedig i fod yn iaith yr ystafell ddosbarth. Rhaid gwarantu amser i chwarae, cinio, triplau/ymweliadau ysgol, clybiau ar ôl ysgol ac yn y blaen i fod trwy gyfrwng y Gymraeg. Ni ddylid cyfaddawdu ar hyn gan y byddai'r Saesneg yn boddi'r Gymraeg ac yn effeithio ar gaffaeliad iaith y plant;*
- *Beth fyddai'n digwydd pe bai ysgol ddwy ffrwd yn cael ei sefydlu (yn hytrach nag ysgol cyfrwng Cymraeg ddynodedig), a bod y ffrwd Gymraeg yn dod yn llawn? A fyddai Cyngor Caerdydd yn gwarantu y gallai holl rieni dalgylch yr ysgol ym Mhlasdŵr fanteisio ar addysg Gymraeg, gan sicrhau y byddai pob un o'r 60 o leoedd a gynigir o'r Dosbarth Derbyn ymlaen ar gael ar gyfer ffrydiau Cymraeg pe bai hynny'n briodol?;*
- *Os mai'r bwriad yw creu ysgol ddwy ffrwd gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg yn y ffrwd Saesneg, yna byddai'n well i bob un 96 o leoedd meithrin rhan amser fod yn rai cyfrwng Cymraeg yn unig, gan roi cyfle i'r plant gael eu trochi yn yr iaith ac i normaleiddio'r iaith ar eu cyfer cyn iddynt ddewis 'dosbarth derbyn ' neu ' reception class';*
- *Byddai sefydlu cylch meithrin ar y safle yn annog rhieni i ddewis addysg Gymraeg ar gyfer eu plant, ac yn rhoi cyfle i'r rhieni ddod i arfer â'r Gymraeg a mynychu'r safle eu hunain ar gyfer darparu gofal ac addysg y blynyddoedd cynnar i blant 2 oed ac ymlaen. Byddai hyn yn annog dilyniant ar gyfer darpariaeth feithrin Cymraeg yn 3 oed, ac yna ymlaen i addysg Gymraeg llawn amser o'r dosbarth derbyn ymlaen.*
- *Mae'n bwysig bod Mudiad Meithrin mewn unrhyw drafodaethau ynghylch darpariaeth feithrin yn ysgol Plasdŵr fel bod cynlluniau datblygu'r cylchoedd meithrin, a'r ddarpariaeth cyn ysgol yn yr ardal yn cyd-fynd â'r weledigaeth leol hon yn y tymor hir.*
- *Mae angen ystyried sicrhau lefel ddigonol o ddarpariaeth sy'n cydreded ag addysg feithrin ran-amser i blant 3 oed. Er mwyn bodloni gofynion y 30 awr o Gynnig Gofal, defnyddio arbenigedd y mudiad, a phartneriaid eraill o CWLWM i sefydlu ystod o wasanaethau eraill a fyddai'n cynorthwyo rhieni sy'n gweithio*
- *Byddai hyn yn cynnwys darparu clybiau cyn ac ar ôl ysgol i hwyluso cymudo rhieni i'r gwaith ac oddi yno, a darparu gwasanaeth cofleidiol ar gyfer rhieni plant 2 a 4 oed mewn addysg ran-amser yn y dosbarth meithrin, ac a allai drosglwyddo i'r cylch Meithrin ar y safle am yr amser ychwanegol.*

## **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

75. Ymdrinnir â phryderon ynghylch Cymraeg 2050 a lleoedd ysgolion Cymraeg ym mharagraffau 12 – 16 a 51 – 66.
76. Cydnabyddir y byddai'r rhuglder a'r gallu i addysgu yn y Gymraeg yn hanfodol i bob aelod o staff. Mater i'r ysgol fyddai datblygu'r iaith ar draws yr ysgol, yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan iddi, gyda'r disgwyliad y byddai trefniadau priodol yn cael eu rhoi ar waith i annog y defnydd o'r Gymraeg.
77. Bydd y nifer sy'n cymryd lleoedd yn y ddwy ffrwd yn cael ei adolygu'n barhaus pe digwydd y byddai galw mwy na'r nifer o lefydd yn y naill ffrwd neu'r llall, a rhoddir ystyriaeth i'r ffordd orau o fodloni'r galw hwn.
78. Ymdrinnir â phryderon ynghylch darpariaeth feithrin ym mharagraffau 67 – 68.
79. Mae paragraffau 48 - 49 yn ymdrin â'r pryderon ynghylch darpariaeth Cylch Meithrin
80. Ymdrinnir â phryderon ynghylch clybiau cyn ac ar ôl ysgol ym mharagraffau 69.

## **Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG)**

81. Roedd ymateb gan RhAG yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 5)
  - *Mae RhAG yn cefnogi ac yn croesawu ehangu addysg cyfrwng Cymraeg a fydd yn sicrhau bod rhieni sy'n byw ar y datblygiad newydd yn gallu dewis addysg cyfrwng Cymraeg sy'n gyfleus ac yn lleol.*
  - *Mae RhAG yn gefnogol i agor ysgol cyfrwng Cymraeg sy'n rhannu safle gydag ysgol cyfrwng Saesneg, gyda Phennaeth ffederal os yw'r Pennaeth yn rhugl yn y Gymraeg.*
  - *Dewis arall yn lle'r model a ffefrir, yw y cefnogir sefydlu ffrwd Gymraeg annibynnol mewn ysgol ddwy ffrwd, gan rannu Pennaeth os yw'r Pennaeth yn siaradwr Cymraeg rhugl.*
  - *Mae angen addysg cyfan gwbl trwy gyfrwng Cymraeg er mwyn i ddisgyblion ddod yn siaradwyr rhugl.*
  - *Ni ddylai datblygu'r model arfaethedig fod ar draul addysg cyfrwng Cymraeg sef yr unig fodel sy'n creu canlyniadau cwbl ddwyieithog*
  - *Mae'n rhaid diogelu'r model addysg drochi llwyddiannus sy'n seiliedig ar fod y Pennaeth a'r holl staff yn siarad Cymraeg ac yn defnyddio'r iaith gyda disgyblion bob amser.*

- Rhaid i'r ffrwd Saesneg/rhannol Saesneg aros yn annibynnol ar y ffrwd Gymraeg er mwyn sicrhau llwyddiant parhaus addysg drochi Cymraeg. Rhaid eu rhedeg yn annibynnol, gwasanaethau ar wahân, amser chwarae, gweithgareddau allgyrsiol, chwaraeon a chlybiau.
- *Yn y ffrwd Gymraeg, rhaid sicrhau bod y Gymraeg yn hanfodol fel y dull cyfathrebu. Mae'r ddogfen ymgynghori yn cyfeirio at y Saesneg yn cael ei "chyflwyno fel ... cyfrwng addysgu ar gyfer rhai elfennau o'r cwricwlwm". Mae hyn yn mynd yn groes i egwyddorion addysg drochi a bydd yn arwain at y Saesneg yn dod yn iaith cyfathrebu ac addysg mewn gwarsi/ymarfer rhwng disgyblion. Bydd yn gwanhau gafael disgyblion o gefndiroedd di-Gymraeg ar yr iaith.*
- *Yr arfer sefydledig yw bod pob pwnc heblaw Saesneg yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd symud i ffrwd o hyn yn rhoi disgyblion o dan anfantais a gallai gael effaith niweidiol ar nifer y plant sy'n trosglwyddo i ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg lle caiff yr holl bynciau eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.*
- *Gall darpariaeth ysgol ddwy ffrwd arwain rhieni i ddewis y ffrwd fwyaf poblogaidd sy'n effeithio ar hyfywedd y ffrwd arall. Gall fod yn anodd osgoi dwy ffrwd mewn ardaloedd gwledig ond mewn ardal drefol mae cyfle i wneud hynny.*
- *Nid yw RhAG am gollir cyfle i gael ffrwd Gymraeg ychwanegol, fodd bynnag, rhaid gwarantu'r amodau trochi yn y ffrwd cyfrwng Cymraeg yn ddi-gwestiwn.*
- *Mae'r model arfaethedig wedi cael ei dreialu mewn mannau eraill ac nid yw wedi bod yn llwyddiannus gyda disgyblion mewn ardaloedd di-Gymraeg yn disgyn y tu ôl i'r rhai mewn addysg Gymraeg a disgyblion yn methu ag ymdopi ag addysg uwchradd Cymraeg. O ganlyniad, mae hyn wedi gyrru awdurdodau lleol eraill i ddatblygu cynlluniau i droi eu hysgolion dwy ffrwd yn ysgolion cyfrwng Cymraeg dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.*
- *Mae angen penodi athrawon sydd â sgiliau iaith Gymraeg rhugl i weithio yn y ffrwd Saesneg. Mae prinder athrawon, yn enwedig prinder cyfrwng Cymraeg a fyddai'n golygu y byddai'n rhaid penodi staff â sgiliau iaith Gymraeg da. Ni fydd hyn yn caniatáu model o ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gan y bydd yn haws bob amser i ddisgyblion gyfathrebu yn y Saesneg, ac ni fydd y Gymraeg yn ofyniad cyfathrebu. Bydd hyn yn effeithio ar allu disgyblion i ddatblygu patrwm iaith ac ni fydd Cymraeg yn cael ei defnyddio'n ffurfiol nac yn anffurfiol. Bydd hyn yn effeithio ar hyfywedd hirdymor y ffrwd*



- *Sut bydd athrawon yn gweithredu'n ieithyddol. Drwy beidio â gwneud y Gymraeg yn ofyniad hanfodol, bydd disgyblion yn defnyddio Saesneg yn naturiol. Mae'n annhebygol iawn o greu siaradwyr Cymraeg rhugl.*
- *Mae'r cynnig yn rhoi camargraff y gellir cymharu model trochi yn y Gymraeg â model cyfrwng Saesneg arbrofol. Mae'n gwbl gamarweiniol haeru y byddai disgyblion yn ennill yr un sgiliau ieithyddol yn y ddwy ffrwd.*
- *Nid yw dewisiadau dilyniant i ddisgyblion yn glir gyda disgyblion yn annhebygol o allu trosglwyddo'n llwyddiannus i lefel uwchradd cyfrwng Cymraeg. Pa gynlluniau sydd i ehangu a datblygu'r Uned Drochi er mwyn i nifer fwy o ddisgyblion allu manteisio ar y ddarpariaeth hon?*
- *Croesewir sefydlu'r ddarpariaeth feithrin ar gyfer y ffrwd Gymraeg. Byddai sefydlu cylch meithrin ar y safle yn rhoi'r cyfle i gael addysg Gymraeg yn gynt, yn cryfhau'r continwmm iaith a sefydlu llwybr clir i rieni wrth iddynt wneud eu penderfyniadau am addysg eu plant.*
- *Croesewir ehangu Ysgol Plasmawr ond bydd ehangu'r ddarpariaeth gynradd yn cynyddu'r galw am leoedd uwchradd Cymraeg a rhaid i'r Cyngor weithredu ar unwaith i gyflwyno cynigion i fynd i'r afael â'r sefyllfa hon.*
- *Mae angen ymgynghori ynglŷn â threfniadau dalgylchoedd cyn gynted ag y bo modd er mwyn rhoi sicrwydd ac eglurder i rieni yn yr ardal a rhoi sicrwydd a sefydlogrwydd i ysgolion Cymraeg gerllaw.*
- *Bydd llwyddiant Cymraeg 2050 yn gofyn am fuddsoddiad enfawr gan y sefydliad addysg. Dim ond ysgolion cyfrwng Cymraeg all roi sgiliau Cymraeg cyflawn i bob disgybl.*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

82. Mae'r Cyngor yn croesawu cefnogaeth RhAG i'r ddarpariaeth Gymraeg ychwanegol sy'n cael ei chynnig.
83. Byddai rhoi dwy ysgol ar wahân yn golygu y byddai'r ddwy yn llai eu maint ac yn methu â gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Byddai'r ddwy ysgol yn llai diogel yn ariannol nag ysgol fwy.
84. Ni fyddai dwy ysgol ar wahân yn gallu elwa o'r rhagor o sefydlogrwydd ar bob lefel o arweinyddiaeth y gall ysgolion mwy eu denu a'u cynnal.
85. Ymdrinnir â phryderon ynghylch y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ym mharagraffau 12 – 16 a 51 - 66.

86. Bydd disgyblion yn y ffrwd cyfrwng Cymraeg yn cael eu haddysgu yn unol ag arferion sefydledig. Byddai'r holl blant yn y Cyfnod Sylfaen yn profi'r meysydd dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Cymraeg fydd prif gyfrwng dysgu CA 2 gydag o leiaf 70% o'r addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Cyflwynir Saesneg yn ffurfiol fel pwnc yn CA2 a chaiff ei addysgu drwy gyfrwng y Saesneg, a gellir defnyddio Saesneg weithiau ar gyfer rhai agweddau ar rai pynciau.
87. Mae hyn yn gyson â disgrifiad Llywodraeth Cymru o addysg cyfrwng Cymraeg fel y nodir yn y Diffinio Ysgolion yn ôl y ddogfen wybodaeth Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg.
88. Byddai disgwyl i'r ffrwd Gymraeg arfaethedig weithredu model addysgu sy'n gyson ag ysgolion cynradd a ffrydiau cyfrwng Cymraeg llwyddiannus eraill yng Nghaerdydd.
89. Cymraeg fydd iaith y busnes o ddydd i ddydd yn y ffrwd Gymraeg. Y Gymraeg fydd yn cael ei defnyddio fel yr iaith gyfathrebu gyda disgyblion ac ar gyfer gweinyddu. Bydd cyfathrebu â'r rhieni yn y ddwy iaith.
90. Y disgwyliad arferol yw y bydd disgyblion, beth bynnag fo iaith eu cartref, yn gallu trosglwyddo'n hawdd i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg ac erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 byddant wedi cyrraedd safon mewn Saesneg sy'n cyfateb i'r hyn a gyrhaeddir gan ddisgyblion yn y ffrwd Saesneg yn bennaf.
91. Ceir enghreifftiau o ysgolion dwy ffrwd llwyddiannus yn gweithredu yng Nghaerdydd ac mewn awdurdodau lleol eraill a'r disgwyliad yw y bydd y ffrwd Gymraeg yn parhau i allu manteisio ar drochiad iaith llawn tra bydd y rhai sydd yn y ffrwd Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg yn cael cyfle i adeiladu sail ieithyddol fwy cadarn yn eu hail iaith.
92. Ymdrinnir â'r pryderon ynghylch rhuglder staff ym mharagraff 76.
93. Ymdrinnir â phryderon ynghylch darpariaeth feithrin ym mharagraffau 67 – 68.
94. Mater i'r ysgol fydd rhedeg yr ysgol o ddydd i ddydd o ran iaith, clybiau, gweithgareddau allgyrsiol a datblygu ethos Gymraeg, ond y disgwyl yw y bydd yr ysgol yn cael ei rhedeg ar sail datblygu sgiliau iaith i'r holl ddisgyblion a sicrhau y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd i gefnogi defnydd ffurfiol ac anffurfiol o'r Gymraeg.
95. Er y cydnabyddir bod sgiliau iaith ar gyfer y disgyblion hynny yn y ffrwd Gymraeg yn debygol o fod yn uwch na'r rhai sydd yn y ffrwd Saesneg yn bennaf, gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg, mae'r cynnig yn ceisio datblygu sgiliau iaith Gymraeg pob disgybl yn yr ysgol. Un o amcanion y model arfaethedig yw rhoi hyder i rieni y gallai eu plentyn ffynnu i'r un graddau yn y naill gyfrwng neu'r llall.
96. Byddai disgyblion yn cael yr opsiwn i wneud cais i drosglwyddo i addysg uwchradd Gymraeg neu Saesneg. Byddai disgyblion yn derbyn

cefnogaeth ddigonol i drosglwyddo i addysg uwchradd Gymraeg, gyda chyfleoedd trochi priodol i'w galluogi nhw i gyrraedd y rhuglder angenrheidiol i allu cyrchu ystod lawn y cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg.

97. Pe bai cynnig i sefydlu ysgol newydd yn mynd rhagddo, byddai angen ymgynghori ar ddiwygio'r trefniadau ar gyfer y dalgylch i sicrhau cyfatebiaeth well rhwng poblogaethau dalgylchoedd y dyfodol a chapasiti ysgolion lleol.

## **Ymatebion eraill a dderbyniwyd**

### **Cymraeg 2050**

98. *Ni fydd y model iaith a gynigir yn cefnogi'r cynnydd tuag at Strategaeth 2050 Llywodraeth Cymru (2017) o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050;*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

99. Ymdrinnir â phryderon ynghylch Cymraeg 2050 ym mharagraffau 12 – 16 a 51 – 66..

### **Trochiad iaith**

100. *Trochiad iaith mewn ysgolion Cymraeg yw'r model gorau er mwyn sicrhau bod disgyblion yn caffael y Gymraeg a'r Saesneg. Dim ond drwy sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg 2 Ddosbarth Mynediad y gellir cyflawni hyn.*

101. *Mae'r Gymraeg yn hanfodol fel yr iaith gyfathrebu yn y ffrwd Gymraeg er mwyn sicrhau trochi ieithyddol llwyr*

102. *Rhaid i'r ddwy ffrwd aros yn annibynnol ar ei gilydd er mwyn sicrhau llwyddiant parhaus addysg drochi Cymraeg.*

103. *Ni ddylai'r bartneriaeth rhwng y ddwy ffrwd danseilio addysg drochi Gymraeg.*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

104. Ymdrinnir â phryderon ynghylch trochi'r Gymraeg ym mharagraffau 86 - 91.

### **Staffio**

105. *Er mwyn i'r model a gynigir fod yn llwyddiannus, bydd angen i'r ysgol gael ei harwain a'i staffio gan siaradwyr Cymraeg rhugl hyfforddedig. A fydd digon o staff â'r cymwysterau addas ar bob lefel i ganiatáu hyn.*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

106. Eir i'r afael â phryderon ynghylch rhuglder staff ym mharagraff 76.

107. Mae'r angen i greu cyflenwad digonol o athrawon ac ymarferwyr yn y manau cywir i addysgu plant a phobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei gydnabod yn Cymraeg 2050.
108. Mae'r strategaeth yn nodi'r angen i gynyddu gallu'r system i gwrdd â'r angen i ehangu addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg, ac i gwrdd â'r angen i wella'r modd y dysgir y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.
109. Mae hyn yn cynnwys cynllunio'r gweithlu er mwyn hyfforddi athrawon newydd, cynorthwyo athrawon dan hyfforddiant a chynorthwywyr addysgu ac ehangu cynlluniau sabothol a chyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer y gweithlu presennol.
110. Mae'r strategaeth hefyd yn nodi y bydd hyfforddiant iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg i ymarferwyr y blynyddoedd cynnar yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng sawl rhaglen.
111. Bydd mwy o sylw hefyd i hyfforddiant ar addysgeg a methodoleg cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg, er mwyn sicrhau bod sgiliau a gwybodaeth y gweithlu yn cael eu llywio gan dystiolaeth am ddulliau trochi effeithiol ac addysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

### **Darpariaeth Cylch Meithrin**

112. *Dylid ystyried sefydlu darpariaeth cylch meithrin ar y safle*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

113. Mae paragraffau 48 - 49 yn ymdrin â'r pryderon ynghylch darpariaeth Cylch Meithrin.

### **Addysg feithrin**

114. Dylai'r ddarpariaeth feithrin arfaethedig fod yn Gymraeg yn unig i hwyluso trochi cynnar.

115. *Mae cael nifer uwch o lefydd meithrin (48 fesul ffrwd) yn creu anawsterau wrth i'r plant drosglwyddo i'r ysgol gynradd pan nad oes ond 30 lle ar gael.*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

116. Ymdrinnir â phryderon ynghylch darpariaeth feithrin ym mharagraffau 67 - 68.

117. Mae gan blant yng Nghaerdydd hawl i gael lle mewn meithrinfa yn y tymor sy'n dilyn eu pen-blwydd yn dair oed a byddant yn mynychu'r feithrinfa am uchafswm o bum tymor. Mae cael mwy o leoedd meithrin yn caniatáu i nifer fwy o blant a anwyd yn ystod tymhorau'r Hydref a'r gwanwyn i gael mynediad i ddarpariaeth yn y tymor sy'n dilyn eu trydydd penblwydd.

### **Darpariaeth Ysgol Uwchradd**

118. *A fydd digon o lefydd ar gael mewn ysgolion uwchradd ar gyfer y cynnydd mewn disgyblion*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

119. Mae Cam 1 datblygiad Plasdŵr, sef lleoliad yr ysgol newydd, yn gorgyffwrdd dalgylchoedd Ysgol Uwchradd Cantonian, Ysgol Gyfun Radur ac mae hefyd yn nalgylch Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr.

120. Gwasanaethir y datblygiad hefyd gan ysgol uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf ac ysgol uwchradd Gatholig Corpus Christi, er bod derbyniadau i'r ysgolion hyn yn rhoi blaenoriaeth i feini prawf sydd wedi'u seilio ar fydd a/neu sy'n seiliedig ar bresenoldeb mewn ysgol o'r un grefydd.

121. Mae'r galw yn y dalgylch am lefydd cyfrwng Saesneg ar ddechrau addysg uwchradd yn Ysgol Gyfun Radur yn is na'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig, sef 210 lle. Mae amcanestyniadau'n awgrymu na fydd y galw o'r tai presennol yn nalgylch Ysgol Gyfun Radur yn fwy na nifer y llefydd sydd ar gael.

122. Mae'r galw yn y dalgylch am lefydd cyfrwng Saesneg ar ddechrau addysg uwchradd yn Ysgol Uwchradd Cantonian yn is na'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig, sef 181 lle. Mae amcanestyniadau'n nodi na fydd y galw o'r tai presennol yn nalgylch Ysgol Uwchradd Cantonian yn fwy na nifer y llefydd sydd ar gael.

123. Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi cynnig i ehangu Ysgol Uwchradd Cantonian o chwech i wyth dosbarth mynediad (Nifer Derbyn Cyhoeddedig o 240 o lefydd). Os gweithredir y cynnig hwn, byddai'n rhoi digon o lefydd ar gyfer yr holl ddisgyblion sydd yn y tai presennol yn nalgylch yr ysgol ac yn cynnig capasiti ychwanegol i ateb rhan o'r galw ychwanegol mewn ardaloedd eraill.

124. Gall y ddarpariaeth ysgol bresennol ateb y galw uwch am lefydd mewn ysgol uwchradd Saesneg a ddaw yn sgil camau cynnar datblygiad Plasdŵr.

125. Ar sail y tueddiadau diweddar, amcanestynnir y bydd y galw dros dair dalgylch yr ysgolion uwchradd Cymraeg ar y cyd yn fwy na chyfanswm y capasiti ym Mlwyddyn 7 yn 2020/2021.

126. I ateb y galw bydd Ysgol Plasmawr yn cynyddu ei nifer derbyn o 180 i 210 o fis Medi 2020. Caiff cynigion ar wahân eu cyflwyno i sicrhau bod digon o leoedd i ateb y galw am leoedd addysg Cymraeg ym mhob dalgylch ysgol uwchradd Gymraeg.

127. Mae cytundeb a106 ar gyfer datblygiad gogledd-orllewin Caerdydd o hyd at 5,970 annedd yn cynnwys cytundeb i ddarparu safle ysgol uwchradd newydd a chyfrannu'n ariannol at ei hadeiladu. Byddai cytundebau a106 ar gyfer datblygiadau eraill yn yr ardal, gan gynnwys y tir i'r de o Heol Pentrebaen, Fferm Goetre Fach a Chyffordd 33 hefyd yn dod â chyfraniadau

ariannol at ehangu'r ddarpariaeth mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

128. Oblegid maint y datblygiadau yng Nghaerdydd dros y blynyddoedd nesaf, bydd dalgylchoedd addysg uwchradd Cymraeg a Saesneg yn wynebu heriau heb ad-drefnu'r ddarpariaeth. Mae'r datblygiadau tai mawr sy'n mynd rhagddynt yn y gorllewin ac a gynigir yng ngogledd y ddinas yn benodol yn gofyn am ragor o lefydd ysgol uwchradd.

129. Gallai unrhyw gynigion i ehangu'r ddarpariaeth addysg uwchradd er mwyn ateb y galw o'r tai ychwanegol effeithio ar drefn a phatrwm presennol yr ysgolion. Caiff cynigion eu cyflwyno mewn da bryd i sicrhau bod digon o lefydd i ateb y galw mwy am lefydd mewn ysgolion uwchradd yn y ddwy iaith, a ddaw yn sgil y datblygiadau tai newydd.

### **Trefniadau dalgylchoedd**

130. *Mae sefydlu dalgylchoedd priodol nad sy'n effeithio ar ysgolion eraill yn hanfodol;*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

131. Ymdrinnir â phryderon ynghylch trefniadau dalgylchoedd ym mharagraff 97.

### **Darpariaeth ysgolion yn y dyfodol**

132. *Dylai pob ysgol newydd a gynigir fel rhan o ddatblygiad Plasdŵr fod yn rai Cymraeg yn unig.*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

133. Eir i'r afael â'r pryderon ynghylch darpariaeth ysgolion yn y dyfodol ar ddatblygiad Plasdŵr ym mharagraff 15 – 16 a 20 – 24.

### **Yr Ysgol**

134. *Dylai clybiau brechwast, ar ôl ysgol a chlybiau gwyliau fod yn Gymraeg yn unig.*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

135. Ymdrinnir â phryderon ynghylch brechwast, clybiau ar ôl ysgol a chlybiau gwyliau ym mharagraff 69.

### **Cyfrwng Iaith**

136. *Mae'r Gymraeg yn cael ei gorfodi yn hytrach na bod yn ddewis actif. Dylai'r ysgol newydd arfaethedig fod yn 1 dosbarth mynediad Cymraeg ac 1 dosbarth mynediad Saesneg, nid un dosbarth mynediad Saesneg yn bennaf gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg.*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

137. Ymdrinnir â phryderon ynghylch cyfrwng iaith ym mharagraffau 12 – 16 a 51 - 66.

### **Tagfeydd traffig**

138. *Yn pryderu y bydd y cynnig yn arwain at fwy o dagfeydd traffig ac y bydd angen llwybrau mwy diogel i gerddwyr a beicwyr.*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

139. *Ymdrinnir â phryderon ynghylch cyfrwng iaith ym mharagraffau 6 - 11.*

### **Amserlen**

140. Mae angen tynnu'r llinell amser ymlaen am fod teuluoedd yn symud i mewn nawr.

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

141. Ymdrinnir â phryderon ynghylch y llinell amser ym mharagraff 5 a 44 – 45.